



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl Gydweithiwr

27/01/2022

Dyma'r rhifyn olaf o Gyswllt y Prif Weithredwr gen i cyn i fi drosglwyddo'r awenau i'n Prif Swyddog Gweithredol newydd, Suzanne Rankin, ar 1 Chwefror. Mae Suzanne yn ymuno â ni ar ôl treulio saith mlynedd fel Prif Weithredwr yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Ashford a St Peter. Gobeithiaf y byddwch yn ymuno â fi i'w chroesawu i'r sefydliad.

Wrth edrych yn ôl ar fy nghyfnod fel Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro ac fel Cyfarwyddwr Meddygol, mae rhai uchafbwyntiau a llwyddiannau allweddol yr hoffwn i eu rhannu.

Tîm Arweinyddiaeth Feddygol - wedi'i ddylunio i bontio'r bwlch rhwng Cyfarwyddwyr Meddygol a Chyfarwyddwyr Meddygol Cyswllt, mae cryfhau'r tîm hwn wedi helpu i ddod ag arbenigwyr ar lefelau amrywiol o fewn y sefydliad at ei gilydd er mwyn rhannu arfer gorau a gwybodaeth i lywio rhaglenni newydd. Bob mis, mae'r tîm yn cwrdd i drafod yr heriau diweddaraf ac maen nhw'n parhau i ddenu llawer o bobl.

Sefydlu'r agenda Ansawdd a Diogelwch Meddyginiaeth - mae hwn wedi bod yn flaenoriaeth trwy gydol fy nghyfnod yng Nghaerdydd a'r Fro, i sicrhau presenoldeb meddygol cadarn ar yr agenda. Rydw i wedi annog meddygon i fod yn rhan o'r broses ac roeddwn yn falch o weld y Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael ei sefydlu.

Llawdriniaethau - Er gwaethaf problemau staffio a phwysau gweithredol trwy gydol COVID-19, rydym wedi gweithio'n galed i gynnal llawdriniaethau a pharhau i weithio trwy ein rhestrau aros. Rydym wedi cyflwyno nifer anhygoel o lawdriniaethau yn ystod y cyfnod hwn – cyfanswm o 18,120 o fis Ionawr 2021 – 20 Ionawr 2022.

Lansio'r Ganolfan Trawma Mawr yn Ysbyty Athrofaol Cymru - Ym mis Medi 2020, sefydlwyd Rhwydwaith Trawma De Cymru, a oedd yn gam mawr ymlaen yn y broses o ddarparu gofal brys ar draws De Cymru, Gorllewin Cymru a De Powys. Y Ganolfan Trawma yw'r unig ysbyty niwrolawdriniaeth arbenigol yng Nghymru ac mae'r gwasanaethau a ddarperir yn hynod arbenigol ac ar gael bob awr o'r dydd a'r nos. Mae'r ganolfan yn cefnogi ac yn cydweithio ag ysbytai eraill ar draws y rhwydwaith.

Mae'r **rhaglen frechu COVID-19** yn rhywbeth rydw i'n arbennig o falch ohono. Diolch yn fawr i'n staff, gwirfoddolwyr, ein cymuned a'n partneriaid am eich ymdrechion ar y cyd wrth ymateb i'r her a chyrraedd 1m o frechlynnau ar ddiwedd y llynedd.

Y ffordd y mae **staff wedi camu i'r adwy** yn ystod y pandemig a dangos eu proffesiynoldeb a'u gwydnwch yn ystod adegau hynod heriol. Mae wedi bod

ysbrydoledig gweld cymaint o enghreifftiau o waith tîm effeithiol, arloesedd a chydweithio trwy gydol COVID, ac wrth i ni ddechrau ein proses adfer ac ailddylunio gwasanaethau.

Sefydlu'r canolfannau OPAT – i gefnogi arweinyddiaeth ar y safle yn YALL ac YAC yn dilyn trydedd don y pandemig.

Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo achos busnes i Bartneriaeth Genomeg Cymru ddatblygu **cyfleuster genomeg o'r radd flaenaf gwerth £15.3M** ar safle yng ngogledd Caerdydd.

Creu gwefan Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc – wedi'i gyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc, mae'r adnodd ar-lein hwn yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau gwerthfawr ar les emosiynol ac iechyd meddwl. Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar les rhai plant a phobl ifanc, ac felly mae'n hanfodol fod pobl yn cael gafael ar gymorth. Cafodd yr holl wybodaeth ei churadu'n arbennig gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn partneriaeth â phobl ifanc.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi chwarae rôl hanfodol o ran ymdrechion yn y maes ymchwil yn ystod pandemig COVID-19, a nhw oedd y **Bwrdd Iechyd Cyntaf yn y DU i agor y treial RECOVERY**. Mae'r astudiaeth wedi chwarae rhan bwysig yn y frwydr yn erbyn COVID-19, gan nodi Dexamethasone fel y cyffur cyntaf i wella cyfraddau goroesi COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Yn rhan o'r astudiaeth, Melanie James oedd y claf cyntaf yng Nghymru i gael trallwysiad o wrthgyrff monoclonal i drin COVID-19 yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ar ddechrau 2021.

Dechreuwyd ar gyfnod newydd cyffrous ym maes ymchwil ym mis Medi 2021, wrth i **Swyddfa Ymchwil ar y Cyd Caerdydd** gael ei lansio

- gwaith ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cefnogi dull gweithredu ar y cyd o safbwynt datblygu a darparu ymchwil gofal iechyd ac sy'n anelu at wneud prifddinas Cymru yn un o'r lleoedd gorau yn y DU ar gyfer ymchwil glinigol.

Cyflwyno CAF 24/7, system ffonio yn gyntaf ar gyfer yr Uned Achosion Brys.

Gwaith adnewyddu gwerth £1.2m ar Ward yr Enfys yn Ysbyty Plant Cymru diolch i gyllid gan yr elusen canser i blant, LATCH.

Cyfleuster newydd yr asgwrn cefn a niwro yn Ysbyty Athrofaol Llandochau – cafodd gwasanaethau adsefydlu eu trosglwyddo o'n safle yn Rookwood i gyfleuster newydd pwrpasol o'r radd flaenaf gydag offer arbenigol wedi'i ddylunio o amgylch profiad y claf.

Datblygu'r Uned Llawdriniaeth Ddewisol Warchodedig (PESU) – ym mis Gorffennaf 2020, cyflawnwyd dros 10,000 o driniaethau yn ddiogel yn ystod y pandemig, heb unrhyw drosglwyddiad COVID-19 yn yr uned.

Llwyddiant y gwasanaeth ymgynghoriad fideo (effaith fawr o ran cynaliadwyedd, cyfleustra i'r cleifion, a'r gallu i barhau i gyflwyno gwasanaethau yn ystod COVID-19).

Y Claf Cyntaf yng Nghymru yn Dechrau Triniaeth CAR-T yn Ysbyty Athrofaol Cymru ar gyfer lymffoma (Tachwedd 2019).

Mae arwain y sefydliad trwy'r pandemig wedi bod yn eithriadol o heriol, ond er gwaetha'r pwysau gweithredol rydym wedi'u hwynebu, rydw i'n teimlo'n wylaidd o dystio'r ymroddiad ac ymrwymiad at ofal cleifion. Mae'r gwydnwch, y cymhelliad a'r doniau sy'n parhau i ddod i'r amlwg gan gymaint o aelodau o staff ar draws y sefydliad yn rhagorol. Rydw i wedi cael y cyfle i

weithio ochr yn ochr â chydweithwyr rhagorol ac ysbrydoledig clinigol ac anghlinigol, a phartneriaid y tu allan i'r Bwrdd Iechyd, sydd hefyd wedi dangos eu cryfder, eu creadigrwydd a'u brwdfrydedd dros ragoriaeth o ran gofal cleifion.

Mae wedi bod yn ffrainc dychwelyd a gweithio yng Nghaerdydd, lle dechreuais fy ngyrfa feddygol, a gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr hen a newydd. Rydw i'n gobeithio cadw mewn cysylltiad â nifer ohonoch ar ôl i mi ddechrau ar fy swydd newydd ym Mryste, ac i ddiolch i bob un ohonoch am eich ymrwymiad parhaus a'ch cefnogaeth i sefydliad anhygoel.

Mae rhai o'r uchafbwyntiau allweddol i'w gweld yma:

1. Canolfan Brechu Torfol y Bae
2. Dathlu blwyddyn ers sefydlu Rhwydwaith Trawma De Cymru
3. Gwobrau Nyrs y Flwyddyn Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru 2021
4. Gwaith adnewyddu gwerth £1.4 miliwn ar Ward yr Enfys yn Ysbyty Plant Cymru
5. Gwasanaethau Adsefydlu Arbenigol yr Asgwrn Cefn a Niwro yn symud i Ysbyty Athrofaol Llandochoau
6. Cyfleuster Partneriaeth Genomeg Cymru newydd o'r radd flaenaf
7. Lansio gwefan newydd ar gyfer plant a phobl ifanc, yn cynnig cymorth lles emosiynol ac iechyd meddwl
8. Canolfan OPAT – Diwrnod 1
9. Agor Ysbyty Calon y Ddraig



Sesiynau Galw Heibio ar gyfer y Brechlyn

Wrth i'r cyfyngiadau lacio, mae hi dal yn bwysig i gael eich brechlyn. Rydym yn gweld lleihad mewn cyfraddau achosion positif ymhlith y rhai sy'n 60 oed ac yn hŷn ond cafwyd cynnydd yn nifer y plant oedran ysgol sy'n profi'n bositif ym mis Ionawr, felly er bod gwelliant wrth ystyried y darlun mawr, cael y brechlyn yw'r ffordd orau o hyd i'n cadw ni i gyd yn ddiogel a pharhau i reoli achosion COVID o fewn y gymuned.

Mae ein tîm bellach wedi rhoi 1,062,213 o frechlynnau gan gynnwys 283,766 dos atgyfnerthu i boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg. Rydym yn gwerthfawrogi nad yw pawb wedi gallu mynd i'w hapwyntiadau felly er mwyn gwneud y brechlyn yn fwy hygyrch, rydym bellach yn cynnig sesiynau galw heibio ym mhob un o'n Canolfannau Brechu Torfol; yn y Bae, y Sblot a Holm View. Gallwch chi alw heibio i gael eich dos cyntaf, eich ail ddos neu eich dos atgyfnerthu heb orfod trefnu apwyntiad. Os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn, gallwch chi alw heibio i unrhyw ganolfan, ond dim ond i'r Bae y gall plant rhwng 12-15 oed fynd ac mae'n rhaid bod yng nghwmni oedolyn. Mae rhai fferyllfeydd cymunedol hefyd yn cynnal sesiynau galw heibio yr wythnos hon ar gyfer pobl sy'n 18 oed neu'n hŷn, yn Fferyllfa Central ar ddydd Iau a dydd Gwener ac yn Fferyllfa Cyncoed ar ddydd Iau. Unwaith eto, gallwch chi alw heibio i'r safleoedd hyn os ydynt yn agos at eich cartref i gael y brechlyn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am amseroedd a lleoliadau ar ein [gwefan](#)

Brechladau rhag y fflw i staff

Yr wythnos ddiwethaf, fe wnes i annog aelodau o staff i drefnu i gael eu brechiad rhag

y fflw, sydd am ddim – mae nifer y bobl sydd wedi manteisio arno yn is na'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Gall y fflw, fel COVID-19, fod yn ddifrifol iawn, ac mae cael eich brechiad rhag y fflw yn cynnig amddiffyniad da i chi rhag salwch difrifol, gan helpu i'ch diogelu chi, eich cydweithwyr a'ch cleifion.

Mae'r brechlyn am ddim ar gael i'r holl staff (yn enwedig y rhai sydd mewn cyswllt rheolaidd â chleifion) mewn clinigau lechyd Galwedigaethol wedi'u trefnu. Gallwch alw heibio i'r Clinig Mynediad Agored lechyd Galwedigaethol ar yr ail lawr yn Nhŷ Dinbych, YAC, bob dydd Gwener rhwng 9am a 4pm.

Mae gan y rhan fwyaf o adrannau Hyrwyddwr y Fflw hefyd sy'n gallu eich brechu yn eich gweithle. Os nad ydych yn gwybod pwy yw eich Hyrwyddwr y Fflw lleol, gallwch ofyn i'ch rheolwr a fydd yn gallu rhoi'r wybodaeth briodol i chi.

Os ydych eisoes wedi derbyn eich brechiad rhag y fflw mewn meddygfa leol neu fferyllfa gymunedol, gofynnwn i chi gwblhau'r ffurflen HAD ELSEWHERE os gwelwch yn dda. Mae hyn yn ein galluogi i olrhain pa bobl sydd wedi cael eu brechiad rhag y fflw, a ble. Cliciwch [yma](#) i gwblhau'r ffurflen.

Adfer ac Ailddylunio: Four Eyes Insight

Mae ein timau ar draws y Bwrdd lechyd wedi bod yn gweithio'n galed i ddychwelyd gweithgarwch dewisol yn ôl at y lefelau a welwyd cyn COVID. Er mwyn cefnogi ein huchelgais i adfer ein gweithgarwch cyn COVID yn llawn ac, yn y pen draw, gweithio tuag at gynyddu gweithgarwch y tu hwnt i hyn, mae

ein tîm Adfer ac Ailddylunio wedi comisiynu cam newydd o waith gyda Four Eyes Insight (FEI). Mae Four Eyes wedi cefnogi'r Bwrdd Iechyd ar amrywiaeth o brosiectau gwahanol yn y gorffennol, maent yn arbenigwyr ar ddylunio atebion i gynnig gwelliannau i lwybrau cleifion ac mae ganddynt hanes o gyflwyno newid cymhleth ar draws y GIG.

Gofynnwyd i dîm Four Eyes gefnogi'r Bwrdd Iechyd i wella cynhyrchiant mewn sesiynau ac ymgorffori ffyrdd newydd o weithio yn unol ag egwyddorion arferion gorau cenedlaethol. Bydd Four Eyes yn gweithio gyda ni dros yr 20 wythnos nesaf, gan ddechrau gyda cham diagnostig lle byddant yn cwrdd â'r timau, yn arsylwi ar arferion presennol ac yn dadansoddi data. Byddant yn adeiladu ar y canfyddiadau o'r cam diagnostig hwn i gefnogi gwelliannau ac yn ymgorffori arferion newydd.

Mae'r tîm o Four Eyes yn gwerthfawrogi'r pwysau presennol sy'n wynebu timau ar draws y Bwrdd Iechyd ac felly byddant yn gwneud pob ymdrech i darfu cyn lleied â phosibl, wrth sicrhau eu bod yn gwneud gwelliannau a fydd yn helpu ein gwasanaethau i ddarparu'r gofal gorau posibl. Rydym yn hynod gyffrous i fod yn gweithio gyda Four Eyes eto yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn yn ein hadferiad.

Ymweld â chleifion – neges i staff

Mae nifer y ceisiadau i ymweld ag anwyliaid yn yr ysbyty'n cynyddu, ac yn ganolog rydym yn derbyn hyn at 800 o alwadau bob wythnos. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i staff clinigol a staff gofal iechyd am eu cymorth yn trefnu'r ymweliadau hyn mewn ffordd ddiogel a chefnogol pryd bynnag y bo modd.

Wrth roi gwybod i gyswllt y claf ynghylch newid ward, gwiriwch a oes unrhyw

ymweliadau wedi'u trefnu ymlaen llaw a cheisiwch gadw at yr ymweliad lle bo hynny'n bosibl.

Dylai'r maes clinigol geisio hwyluso cynnydd mewn ymweliadau ar gyfer unrhyw glaf ar ddiwedd ei oes. Nid yw hyn ar gyfer yr oriau olaf o fywyd yn unig, ond y diwrnodau a'r wythnosau gwerthfawr cyn hynny, gan gynnwys i gleifion sy'n derbyn gofal lliniarol. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

Grŵp Gwyrdd Caerdydd a'r Fro



Gwnaethom gynnal cyfarfod cyntaf Grŵp Gwyrdd Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar. Nod y grŵp hwn yw creu llwyfan cefnogol i drafod a gweithredu er mwyn lleihau ein hól troed carbon a hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gofal iechyd sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Mae'r grŵp hwn yn galluogi aelodau i ddatblygu a rhannu gwybodaeth, gwella sgiliau, a datblygu prosiectau cynaliadwy yn ein mannau gwaith ac yn yr ardal leol. Ei ethos yw, '**Cysylltu, Dysgu a Thrawsnewid**'.

Cysylltu

Cysylltu staff o bob rhan o'r bwrdd iechyd gyda'i gilydd a gydag ymgyrch ehangach yr hinsawdd ac iechyd a'i sefydliadau arweiniol; defnyddio ein safle fel aelodau dibynadwy o'r gymuned i godi proffil newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth fel materion iechyd

pwysig, a chynnwys staff a chleifion fel rhan o'r datrysiad.

Dysgu

Meithrin gwybodaeth drwy ddigwyddiadau addysgiadol, hyfforddiant, gweminarau, ac uwchsgilio cydweithwyr yn uniongyrchol; integreiddio gofal iechyd cynaliadwy i'r cwricwlwm ôl-raddedig ac israddedig.

Trawsnewid

Trawsnewid arferion gwaith yn y bwrdd iechyd ac arwain prosiectau cynaliadwyedd yn y gymuned ehangach. Roedd adborth o'n cyfarfod cyntaf yn nodi meysydd penodol o ddiddordeb er mwyn gweithredu arnynt: ymarfer clinigol, gwastraff, ynni, trafnidiaeth, bwyd a bioamrywiaeth.

Os yw Grŵp Gwyrdd Caerdydd a'r Fro yn rhywbeth y byddai gennych ddiddordeb mewn ymuno ag ef, cysylltwch â [cavuhb@greengroup@wales.nhs.uk](mailto:cavuhb@greengroup.wales.nhs.uk). Mae croeso i bob aelod o staff.

Dyfarnu achrediad amgylcheddol i BIPCAF



Llunio ein
Gofal Iechyd Cynaliadwy
i'r Dyfodol
Shaping Our Future
Sustainable Healthcare

Rydym yn falch o gyhoeddi, yn dilyn archwiliad diweddar, ein bod wedi derbyn achrediad ISO14001 parhaus ar gyfer ymrwymiad ein sefydliad i reoli amgylcheddol. Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi bod ag achrediad ISO14001 ers 2003 ac felly mae llwyddo i gynnal hyn yn gyflawniad anhygoel ac yn cydfynd â'n strategaeth Llunio ein Gofal Iechyd Cynaliadwy i'r Dyfodol.

Mae'r ardystiad hwn yn cydnabod ein bod wedi nodi ac wedi rheoli ein risgiau amgylcheddol a'n cyfrifoldebau cyfreithiol allweddol ar draws y prif ddisgyblaethau, gan gynnwys y fframwaith rheoli a'r strwythurau adrodd hanfodol.

Yn arbennig, cawsom adborth cadarnhaol ar ein cynnydd gan gynnwys rhaglenni Rheoli Gwastraff/Ynni/Datgarboneiddio a gwelliant parhaus cyffredinol. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu yn ystod yr archwiliad ac am eich cymorth a'ch cefnogaeth barhaus gyda chynnal y safon ISO14001.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn gwneud ein sefydliad yn fwy cynaliadwy, [ewch i SOFSH: Ynghylch](#)

Darllenwch ein Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd [yma](#).

Prosiect Pobl, Lle, Dyfodol

Mae Tîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles wedi datblygu amrywiaeth o brosiectau o arddangosfeydd i greadigaethau amlgyfrwng, fel rhan o 'Ysbyty Brenhinol Caerdydd: Pobl, Lle, Dyfodol', prosiect parhaus a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Darllenwch am y cynnydd sydd wedi digwydd hyd yma a'r prosiectau sydd ar y gweill. Darllenwch ragor yma: <https://cardiffandvale.art/cri-news/>

Jen Thomas yw Arwr Iechyd mis Ionawr

Darllenwch sut y gwnaeth Jen achub bywyd ei chydweithiwr a'i ffrind Martine, gan ei gwneud yn enillydd teilwng Arwr Iechyd yr Elusen Iechyd. Os ydych chi'n adnabod rhywun o fewn y Bwrdd Iechyd sy'n haeddu cydnabyddiaeth

am ei waith, cysylltwch â ni – fundraising.cav@wales.nhs.uk.

Darllenwch ragor yma: <https://healthcharity.wales/jen-thomas-is-crowned-health-hero-for-january/>

A wnewch chi ymgymryd â'r her 100?

Mae Tîm Profiad y Claf yn gofyn i chi fynd gam ymhellach a chymryd rhan yn yr her 100 yn ystod mis Chwefror 2022.

Mae gan bawb fwriadau da ar ddechrau blwyddyn newydd, i fod yn fwy ffit, yn iachach ac yn fwy actif. Meddyliodd y Cydlynnydd Gwirfoddolwyr, Jordann Rowley am y syniad o annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan,

naill ai ar eu pen eu hunain neu fel rhan o dîm, i ymgymryd â'r her 100 i godi arian er mwyn gwneud gwahaniaeth i gleifion ar y wardiau.

Gallwch gymryd rhan trwy wneud y canlynol:

- Cerdded 100 milltir
- Ymgymryd â her 100 milltir o gamau
- Dringo 100 rhes o risiau
- Seiclo 100 milltir
- Rhedeg 100 milltir
- Nofio 100 milltir
- Gwneud 100 lap o'ch gardd
- Gwneud 100 o unrhyw weithgaredd o'ch dewis

I gael rhagor o wybodaeth ac i gymryd rhan, ewch i: <https://healthcharity.wales/cy/a-wnewch-chi-ymgyrmyd-ar-her-100/>

JOIN THE 100 CHALLENGE!

We're raising money for the Patient Experience Team to purchase much needed supplies to support and engage with patients, and we'd love for you to join us!



You can choose any activity you like, it could be to run 100 miles, do 100 squats a day, climb 100 flights of stairs, or even to walk 100 laps of your garden. You decide!

#CAVPE100
#SHARETHELOVE

Cardiff & Vale
HealthCharity
Elusen Iechyd
Caerdydd a'r Fro



JOIN IN

Contact us for more details on how to take part, email;
pe.cav@wales.nhs.uk

SHARE

Once you're set up, tag and mention us in your posts with updates on your activity! @Cav_PETeam